

Cofnodion Cyfarfod Cynqor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 2il Gorffennaf, 2019 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn

PRESENNOL

Cynghorwyr : Alan Henson (Cadeirydd), Lynford Thomas,,Johnny Davies, Lyn Williams, Gerwyn Owen

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr: , Haf Hughes, Glyn Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans, Owen Llywelyn, Harry Williams

2. PERSONOL

Dim i'w cofnodi

3.. DATGELU BUDDION PERSONOL

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddion personol.

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mehefin 11eg, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams

5. MATERION YN CODI

10. iv. Mae'r wefan newydd nawr yn fyw a bydd y gwaith yn dechrau o boblogi'r wefan gyda gwybodaeth a newyddion.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith yn ystod y mis diwethaf gan nodi unwaith eto, yn sgil ei ymweliad â Hyfforddiant Ceredigion, y gwaith da maent yn 'neud ar gyfer pobol ifanc y Sir. Mae'r gwaith o baratoi Cyfrifiad 2021 wedi dechrau a thanlinellodd y pwysigrwydd i bawb i gofrestru gan fod hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid sy'n cael ei ddosrannu i'r gwasanaethau cyhoeddus.

7. ADRODDIAD CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU 25/6/2019

Yn bresennol yn y digwyddiad oedd Y Cynghorwyr Lynford Thomas a Harry Williams Etholwyd Y Cyng. Julian Evans yn Gadeirydd am 2019-2020. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan Dr.Alan Axford am elusen HAHAV, sef hosbis sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn Aberystwyth.

8.. CYLLID

- I. Mae'r system PAYE wedi ei sefydlu nawr. Bydd tâl y Clerc nawr yn cael ei dalu'n fisol. Bydd y taliad cyntaf o £460.18 yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin, 2019 oherwydd nad oedd y broses o sefydlu'r gwasanaeth PAYE wedi ei gwblhau Mae swm o £76.60 hefyd yn ddyledus i HMRC cyn 22ain Gorffennaf, 2019, i gwrdd â'r costau treth ar y raddfa sylfaenool.
- II. Mae costau'r Clerc am y chwarter yn £16.70 am gostau postio.

- III. Mae'r ad-daliad TAW o £453.43 wedi cael ei dalu'n syth i'r cyfri' banc ar 22ain Mai, 2019.
- IV. Mae ffurflen yr Archwhiliad wedi ei hafnon at Grant Thornton. Mae'r Hysbysiad Etholwyr wedi cael eu rhoi yn y 4 bocs gyda'r manylion a bydd e hefyd yn mynd lan ar y wefan nawr bod y wefan yn weithredol.

9. YMATEB I YMGYNGHORIAD AD-DREFNU YSGOL ARDAL NEWYDD DYFFRYN AERON

Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth lawn o sylwadau'r aelodau, penderfynwyd anfon ymateb tebyg i'r ymateb blaenorol - Cofnodion mis Mawrth (8) - yn datgan na fedrwn wneud unrhyw sylw teg i'r ymgynghoriad nes bod union leoliad yr ysgol yn hysbys, Teimlwn nad y'n ni'n cyflawni ein dyletswyddau fel Cynghorwyr os nad y'n ni'n medru ateb ymholiadau'r gymuned ynglŷn â mater mor bwysig i drigolion yr ardal.

10. GOHEBIAETH

- a. Derbyniwyd llythyr gan Y Lleng Brydeinig yn gwahodd ein Cadeirydd i Arddwest yng Ngerddi Llanllyr ar 20fed o Orffennaf. Derbyniwyd y gwahoddiad a bydd y Clerc yn anfon ateb ar ran y Cadeirydd.
- b. Llythyr wrth Ysgol Feithrin Felinfach yn gofyn am nawdd. Bydd hwn yn cael ei roi ar y rhestr i drafod ym mis Rhagfyr.
- c. Llythron diolch am nawdd wrth:

Gofal Mewn Galar; Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol; Age Cymru
Ceredigion; Eisteddfod Llangollen; Teenage Cancer Trust

11. CYNLLUNIO

A190345 Garej, Blodfa, Dihewyd. Cefnogwyd yn unfrydol. Cynigiwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

A190389 Codi Granny Annexe, Waun Uchaf, Cribyn. Cefnogwyd yn unfrydol. Cynigiwyd gan Y Cyng. Johnny Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

12. UNRHYW FATER ARALL

- 1) Cais am brinter newydd gan y Clerc. Penderfynwyd i'r Clerc gwneud ymholiadau ac i roi'r wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.
- 2) Cododd Y Cyng. Johnny Davies bwynt am safon y trasho yn ardal Dihewyd 'leni. Ategyd hyn gan y Cyng. Gerwyn Owen a nododd yn arbennig nad yw'r cloddiau ger y 'junctions' yn cael eu torri'n ddigonol sy'n beryglus i yrrwyr
- 3) Penderfynwyd diweddarau tsaen y Cadeirydd gan fod tair blynedd wedi mynd ers i enwau'r Cadeiryddion cael eu hychwanegu. Y Clerc i ofyn i LloydsJewellers, Llanbed i 'neud y gwaith.

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF: 10/9/2019 Neuadd Dihewyd

